# Cofnodion - Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

**Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 24 Hydref 2023

Amser: 09.03 - 09.11

# Preifat

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | Elin Jones AS, Llywydd (Cadeirydd)<br>Heledd Fychan AS<br>Lesley Griffiths AS<br>Russell George AS |
| Staff y Pwyllgor: | Graeme Francis (Clerc)<br>Yan Thomas (Dirprwy Glerc) |
| Eraill yn bresennol | David Rees AS, Y Dirprwy Lywydd<br>Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd<br>Siwan Davies, Dirprwy Brif Weithredwr a Chlerc a Chyfarwyddwr Busnes y Senedd<br>Bethan Davies, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau<br>Julian Luke, Pennaeth Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth<br>Helen Carey, Llywodraeth Cymru |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

Croesawodd y Llywydd yr Aelodau i'r cyfarfod. Roedd Russell George yn bresennol, yn dirprwyo ar ran Darren Millar. Cafwyd ymddiheuriadau gan Jane Dodds.

## 2 Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol

Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod blaenorol i'w cyhoeddi.

## 3 Trefn Busnes

### 3.1 Busnes yr wythnos hon

**Dydd Mawrth**

Tynnodd y Trefnydd sylw'r Rheolwyr Busnes at y newid a ganlyn:

Datganiad gan y Gweinidog Newid Hinsawdd: Ansawdd Dŵr (30 munud) – *Gohiriwyd tan 12 Rhagfyr*

- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal fel yr eitem olaf o fusnes.
- Nid yw'r Cyfarfod Llawn yn debygol o fynd y tu hwnt i 5.40pm.

Gofynnodd Russell George am ddatganiad llafar gan y Llywodraeth heddiw am y llifogydd a welwyd mewn rhannau o Gymru dros y penwythnos. Dywedodd y Trefnydd y byddai'n rhoi ystyriaeth i'r mater.

**Dydd Mercher**

- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal cyn y Ddadl Fer
- Nid yw'r Cyfarfod Llawn yn debygol o fynd y tu hwnt i 7.10pm.

### 3.2 Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Rhoddodd y Trefnydd wybod i'r Rheolwyr Busnes am y newidiadau canlynol i amserlen Busnes y Llywodraeth am y tair wythnos nesaf:

**Dydd Mawrth 14 Tachwedd 2023**

- Datganiad gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol: Sicrhau Treth Gyngor Decach (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Newid Hinsawdd: Anghenion Seilwaith Trosglwyddo Trydan Cymru ar gyfer Sero Net (30 munud)
- Rheoliadau Diogelwch Adeiladau (Disgrifiad o Adeilad Risg Uwch) (Cyfnod Dylunio ac Adeiladu) (Cymru) 2023 (15 munud)
- Gorchymyn Cynlluniau Masnachu Allyriadau Cerbydau 2023 (15 munud)
- Cynnig i amrywio trefn ystyried gwelliannau Cyfnod 3 i Fil yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru) (15 munud)

Rhoddodd y Trefnydd ddiweddariad i'r Pwyllgor Busnes ar ymdrechion i liniaru'r amser gorffen hwyr arfaethedig i'r Cyfarfod Llawn ar 21 Tachwedd. Nododd y Trefnydd y gallai newidiadau pellach ddod ac y bydd yn rhoi diweddariad pellach yn y cyfarfod nesaf.

### 3.3 Amserlen y Senedd ar gyfer y tair wythnos nesaf

Cytunwyd ar yr ychwanegiadau canlynol i amserlen Busnes y Senedd ar gyfer y tair wythnos nesaf:

**Dydd Mercher 22 Tachwedd 2023 –**

- Dadl Aelodau o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) – Mark Isherwood (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Dadl Fer: Samuel Kurtz (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro) (30 munud)

# 4 Deddfwriaeth

## 4.1 Amserlen ar gyfer Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru)

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i gyfeirio'r Bil at y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai er mwyn trafod yr egwyddorion cyffredinol. Cytunodd y Pwyllgor Busnes hefyd i ohirio penderfyniad ar yr amserlen ar gyfer y Bil er mwyn ymgynghori â'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai ac i ddychwelyd at y mater mewn cyfarfod yn y dyfodol.

# 5 Unrhyw Fusnes Arall

### Y Bil 'Cwotâu Rhywedd'

Dywedodd y Trefnydd wrth y Rheolwyr Busnes bod y Llywodraeth, yn amodol ar benderfyniad y Llywydd, yn bwriadu cyflwyno'r Bil Cwotâu Rhywedd (Cymru) ar 4 Rhagfyr 2023.

### Cwestiynau Arweinwyr a Llefarwyr Grwpiau

Gofynnodd Russell George a yw'r Llywydd yn disgwyl i lefarwyr ac arweinwyr ddefnyddio eu cwestiynau i weinidogion i ddilyn thema eang. Cadarnhaodd y Llywydd fod y Canllawiau ar y modd Priodol o Gynnal Busnes y Senedd yn nodi bod hyn yn ddisgwyliad o ran cwestiynau llefarwyr ond nid cwestiynau arweinwyr